# Gwybodaeth I Gleifion Am Driniaeth Orthognathig

## Adran Orthodonteg

Ystyr Orthognathig yn llythrennol yw “llawfeddygaeth i greu genau syth”.
Y nod yw:

1. Gwella’r berthynas rhwng eich gên uchaf a’ch gên isaf
2. Gwella’r modd rydych chi’n bwyta a siarad drwy sythu eich dannedd a chywiro’r modd y mae eich dannedd uchaf a’ch dannedd isaf yn cyfarfod
3. Gwella ymddangosiad eich wyneb a’ch dannedd

**Ymgynghoriad/ Apwyntiadau**
Cyn dechrau ar gwrs o driniaeth, byddwch yn cael eich gwahodd i fynychu clinigau lle bydd unigolion sy’n ymwneud â’ch gofal yn gallu trafod opsiynau triniaeth gyda chi a’ch teulu. Bydd yr orthodontydd a’r llawfeddyg yn bresennol.  Hefyd, bydd amser rhwng apwyntiadau i drafod y wybodaeth gartref cyn gwneud penderfyniad.









**Triniaeth cyn eich llawdriniaeth**
Cyn dechrau eich triniaeth, cedwir cofnodion sy’n cynnwys modelau o’ch dannedd, lluniau a phelydr-x. Mae’n bosibl y bydd y rhain yn cael eu cynnal eto’n achlysurol yn ystod y driniaeth. Bydd pob claf angen gosod bresys ar yr ên uchaf a’r ên isaf cyn y llawfeddygaeth a bydd y cyfnod hwn yn para rhwng deuddeg a deunaw mis. Cedwir y bresys yn eu lle ar ôl y llawfeddygaeth i gadw’r dannedd yn eu lle cywir ac i sicrhau bod y brathiad a’r ymddangosiad mor ddelfrydol ag sy’n bosibl. Pan fydd y dannedd yn y lle y bwriadwyd iddyn nhw fod, byddwch chi’n barod ar gyfer eich llawdriniaeth. Wythnos i dair wythnos cyn y llawfeddygaeth, byddwch chi’n cael apwyntiad claf allanol hirach i wirio manylion, i drafod unrhyw broblemau neu i ateb unrhyw gwestiynau pellach. Byddwch yn dod i mewn i’r ysbyty'r diwrnod cyn eich llawdriniaeth.

**Eich Llawdriniaeth**
Rhaid aros mewn ysbyty ar gyfer hyn a chael anaestheteg gyffredinol mewn theatr llawdriniaeth. Mae llawfeddygaeth ar bob gên yn cymryd tua naw deg munud. Y cyfnod adfer mewn ysbyty yw 2-4 diwrnod fel arfer. Ar y diwrnod derbyn, cynhelir profion gwaed arferol ac ymchwiliadau eraill yn cynnwys archwiliad corfforol i sicrhau eich bod yn ddigon iach i gael y llawdriniaeth. Bydd yr anaesthetydd hefyd yn eich archwilio ac mae hwn yn gyfle i ofyn am fwy o wybodaeth am yr anaestheteg. Cynhelir y llawdriniaeth drannoeth.

Cyn mynd i’r theatr, mae’n bosibl y byddan nhw’n cynnig meddyginiaeth i’ch helpu i ymlacio. Pryd bynnag mae hynny’n bosibl, byddan nhw’n torri y tu mewn i’r geg yn ystod y llawfeddygaeth, er mwyn ceisio peidio â chael creithiau ar y wyneb. Mae’r llawdriniaeth yn cynnwys torri’r genau’n ofalus i symud yr esgyrn i mewn i’w lle newydd. Maen nhw’n cael eu gosod yn ôl at ei gilydd yn ei lle drwy ddefnyddio platiau metel bach a sgriwiau - yn anaml iawn bydd rhaid tynnu’r rhain. Bron bob tro, byddwch chi’n gallu agor eich genau ar unwaith ar ddiwedd y llawfeddygaeth. Mae’n bosibl y bydd angen elastig ysgafn rhwng y dannedd uchaf a’r rhai isaf (gallwch roi a thynnu hwn eich hun) am ychydig o wythnosau i arwain eich genau i mewn i’w lle newydd.

Yn anaml iawn bydd yn rhaid gosod eich genau gyda’i gilydd i’w cadw yn y lle iawn. Os bydd hyn yn digwydd, mae’n arferol eich trosglwyddo i’r Uned Gofal Dwys neu Ddibyniaeth Uchel am 24 awr cyn dychwelyd i’r ward. Os bydd y genau wedi’u gosod gyda’i gilydd, fel arfer cedwir nhw fel hyn am gyfnod o 6-8 wythnos. Yn anaml iawn mae angen trallwysiad gwaed er mwyn cymryd lle’r gwaed a gollwyd yn ystod y llawfeddygaeth. Ceisir osgoi hyn os yn bosibl.

Mae’n bosibl y bydd angen impio asgwrn; fel arfer, bydd hwn yn cael ei gymryd o’r glun. Gall hyn fod yn fwy poenus na’r llawfeddygaeth ar y wyneb. Bydd pob pwyth yn toddi ac ni fydd yn rhaid eu tynnu allan.

**Ar ôl y Llawfeddygaeth**
Mae’n bosibl y bydd sawl peth yn eich pryderu:

***Poen, Chwydd a Diffyg Teimlad***
Gellir disgwyl chwydd ar ôl llawfeddygaeth. Mae hwn yn amrywio yn ôl yr unigolyn a’r math o lawfeddygaeth a wnaed. Byddwch chi’n cael steroidau i leihau’r chwydd. Bydd y rhan fwyaf o’r chwydd wedi mynd o fewn dwy i dair wythnos, ond gall rhywfaint bara am fisoedd. Rhoddir gwrthfiotigau i atal haint pan fyddwch yn yr ysbyty. Mae analgesia (rheoli poen) bob amser ar gael ond mae’r mwyafrif o gleifion yn synnu cyn lleied yw hyn. Mae’n gyffredin iawn i’r mannau yn eich ceg a’ch wyneb lle cawsoch y llawdriniaeth fod yn ddideimlad. Mae’n bosibl y bydd hyn yn fwy amlwg yn eich gwefus isaf ac o gwmpas yr ên ac nid yw hyn bob amser yn gwella.

***Llyncu***
Ar ôl cyfnod byr, byddwch chi’n gallu llyncu fel arfer a byddan nhw’n eich annog i gymryd diodydd a bwydydd meddal drwy’r geg. Mae’n bwysig iawn cadw eich ceg yn lân a gofynnir i chi lanhau eich dannedd ar ôl bob pryd bwyd. Byddan nhw’n rhoi cegolch gwrthseptig i chi ond nid yw hyn yn lle brwsio eich dannedd yn dda (mae’n bosibl y bydd brws dannedd babi’n ddefnyddiol).

***Diet***
Byddwch chi’n gweld dietegydd pan fyddwch chi’n aros yn yr ysbyty a byddwch chi’n cael taflen ddiet i fynd adref gyda chi. Byddan nhw’n monitro eich pwysau’n ofalus iawn. Mae bob amser yn bosibl cael diet hylif ar ôl llawfeddygaeth ac, fel arfer, mae bwydydd lled-solid meddal yn bosibl hefyd. Disgwylir i chi golli peth pwysau ar ôl llawfeddygaeth ond fel arfer byddwch chi’n adennill hwn yn gyflym wrth wella.

***Triniaeth ar ôl llawdriniaeth***
Ar ôl cael eich rhyddhau o’r ysbyty, bydd yn rhaid i chi gael archwiliadau rheolaidd i fonitro eich cynnydd ac i ni weld bod eich llawdriniaeth yn sefydlog, Byddwn yn tynnu rhagor o luniau, modelau a phelydr-x. Gallwch chi drafod unrhyw broblemau neu bryderon gyda ni hefyd yn ystod yr ymweliadau hyn.

### *Triniaeth bellach*
Fel arfer, mae angen triniaeth orthodonteg bellach i gwblhau'r cywiriad i'r brathiad am nifer o fisoedd ar ôl y llawdriniaeth. Pan fyddan nhw wedi tynnu'r bresys, bydd angen dalwyr i gadw'r dannedd yn eu lle terfynol. Weithiau mae angen daliwr parhaol yn arbennig os bydd rhai o'r dannedd wedi'u symud.

Mewn rhai achosion, bydd angen mwy nag un llawdriniaeth, fel llawfeddygaeth i'ch trwyn a/neu eich gên. Mae'r rhain yn driniaethau llai fel arfer a byddwch chi wedi clywed am y rhain yn ystod eich triniaeth. Os bydd gennych unrhyw gwestiwn arall, cofiwch nodi hyn (fel na fyddwch chi'n anghofio) a'i drafod gyda'ch ymgynghorydd.

## Cwestiynau yr hoffech eu gofyn efallai

### *Beth yw fy opsiynau?*
Os ydych wedi mynychu clinig ac wedi gweld yr orthodontydd a llawfeddyg y genau a'r wyneb gyda'i gilydd, yna, mae'n debygol mai'r unig ddull o gywiro eich brathiad yn llwyr a chydbwyso ymddangosiad eich wyneb fyddai cyfuniad o lawfeddygaeth a gwaith bresys. Os byddan nhw wedi trafod y cynllun hwn gyda chi, mae'n annhebygol y bydd bresys ar eu pen eu hunain yn gallu cywiro'r broblem gyda'ch dannedd yn llwyr oherwydd safle esgyrn gwaelodol y wyneb. Mae peidio â chael triniaeth o gwbl bob amser yn opsiwn a rhaid i chi fod 100% yn sicr eich bod am gael llawfeddygaeth.

### *Beth yw manteision llawfeddygaeth?*
Manteision llawfeddygaeth ar eich genau yw gwella cydbwysedd eich wyneb a sicrhau bod eich dannedd yn cyfarfod ei gilydd yn gywir.

### *Beth yw risgiau llawfeddygaeth?*
Y prif risg yn dilyn llawfeddygaeth yw teimlad gwahanol parhaol yn eich gwefus isaf a'ch gên sy'n digwydd mewn 0-24% o achosion. Mae risgiau eraill yn cynnwys haint . Bydd eich wyneb wedi cleisio a chwyddo ar ôl y llawfeddygaeth. Fodd bynnag, bydd hyn yn gwella yn yr wythnos ar ôl y llawfeddygaeth.

| Nodwch unrhyw gwestiynau yr hoffech eu gofyn …… |
| --- |
| |

Manylion cyswllt ……………………………………………….